O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif. 405 (Cy. 49)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2013

Gwnaed 25 Chwefror 2013

Yn dod i rym 28 Chwefror 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid dileu cyfyngiadau cyflymder ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd, mewn mannau lle y cyfyngir ar y gefnffordd ar hyn o bryd gan oleuadau stryd.

Mae Gweinidogion Cymru felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 82(2), 83(1) a 124 o, a pharagraff 27 o Atodlen 9 i, Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ("Deddf 1984") ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

Enwi a chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Chwefror 2013. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2013.

2. Cyfarwyddir bod y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf 1984.